CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 4

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

12/08/2020

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf 2020 gyda rhai cwestiynau pellach ar addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae fy ymateb i'r cwestiynau a godwyd fel a ganlyn:

**C1. Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i rieni allu tynnu eu plant yn ôl o'r elfennau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg nac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. A ydych yn fodlon bod hyn yn unol â hawliau rhieni i sicrhau bod eu hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol yn cael eu parchu o dan Brotocol 1 Erthygl 2 (hawl i addysg) a'u hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd o dan Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?**

Mae hwn yn faes cymhleth yn y Bil ac felly nodaf isod grynodeb o'r hyn y mae'n ofynnol i ysgolion ei wneud mewn perthynas ag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Bil newydd yn ôl categori o ysgol.

*Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- Mae'n rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei dylunio a'i haddysgu gan ystyried y maes llafur cytunedig.
- Mae'n rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei dylunio a'i haddysgu gan ystyried canllawiau statudol Gweinidogion Cymru.

*Ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- Mae'n rhaid i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

    - addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi'i dylunio'n unol â'r maes llafur cytunedig
    - addysg Crefydd, gwerthoedd a moeseg sy'n cael ei haddysgu'n unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol");
- Mae'n rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei dylunio a'i haddysgu gan ystyried canllawiau statudol Gweinidogion Cymru.
- Y sefyllfa arferol yw bod dysgwyr yn cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi cael ei dylunio gan ystyried y maes llafur cytunedig (felly, er bod y cwricwlwm yn darparu ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur cytunedig, y sefyllfa arferol yw mai dim ond addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur cytunedig sy'n cael ei haddysgu)
- Os bydd rhieni yn gofyn am addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol, gellir ei darparu.  Nid yw hyn yn hawl i dynnu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

*Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Mae'n rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei dylunio a'i haddysgu gan ystyried canllawiau statudol Gweinidogion Cymru.
- Mae'n rhaid i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer:
    - addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol
    - addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi'i dylunio'n unol â'r maes llafur cytunedig
- Y sefyllfa arferol yw bod dysgwyr yn cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Mae'r cwricwlwm yn darparu ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur cytunedig ac addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol, ond y sefyllfa arferol yw mai dim ond Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol a addysgir oni fydd rhiant yn gofyn am addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur cytunedig.
- Os bydd rhiant yn gofyn am hynny, mae'n rhaid rhoi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w blentyn neu ei blant, sy'n unol â'r maes llafur cytunedig yn unig.

Mae darpariaethau'r Bil yn sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol a bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob plentyn ym mhob ysgol.

Yna, mae'r Bil yn sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl i gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol os dymunir hynny. O ran ystyr plwraliaethol, rydym yn golygu nad yw'n ceisio gwthio unrhyw syniadau.  Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn cydnabod rôl ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg y wladwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y wladwriaeth wedi croesawu sawl ffydd wahanol i'r ddarpariaeth addysg yn hanesyddol. Wrth ddrafftio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio parchu hyn, a chydbwyso hawl bresennol rhieni yn y system ysgolion yng Nghymru ac, yn wir, yn y DU, i ddewis addysg grefyddol i'w plentyn gan gydnabod na fydd yn briodol i bob disgybl mewn ysgolion o'r fath.

Mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol, y sefyllfa arferol o dan Atodlen 19 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yw eu bod yn addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol, h.y. yn unol â'u hymddiriedolaethau neu ddaliadau eu crefydd. Gall gweithred ymddiriedolaeth yr ysgolion hyn ei gwneud yn ofynnol

iddynt ddarparu addysg mewn modd penodol nad yw'n blwraliaethol. Mewn perthynas ag ysgolion sefydledig ac ysgolion ffydd a reolir yn wirfoddol, mae Atodlen 19 i Ddeddf 1998 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt addysgu'r maes llafur cytunedig oni fydd rhiant yn gofyn am i'r elfen Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol gael ei darparu. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld y gweithredoedd ymddiriedolaeth hyn felly ni allwn fod yn siŵr ynghylch hyn. O ystyried hyn, mae'r Bil yn darparu, os na fydd rhiant am i'r elfen Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol gael ei darparu, y gall ofyn i'r ysgol ddarparu maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Byddai'r darpariaethau hyn yn gymwys i bob ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol, ni waeth beth yw ffydd yr ysgol honno. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau y gellir sefydlu ysgolion newydd â mathau eraill o ffydd. .

Fel y nodir uchod, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob disgybl gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r Bil hefyd yn sicrhau y bydd pob disgybl yn gallu astudio maes llafur/meysydd llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn cydnabod rôl ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg y wladwriaeth.

Mae'r Bil yn ceisio cadw at y sefyllfa bresennol a ddisgrifir uchod ac a nodir yn Atodlen 19 i Ddeddf 1998. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob disgybl mewn ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir, gall rhieni dysgwyr ofyn am faes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod y gall rhieni sy'n anfon eu plant i ysgol sefydledig neu ysgol ffydd wirfoddol a reolir ddymuno i'w plentyn gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Yn y modd hwnnw, mae maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn blwraliaethol ei natur ar gael i bob dysgwr. .

Felly, rydym yn fodlon bod darpariaethau'r Bil yn cydymffurfio â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys A2P1 ac Erthygl 9.

**C2. Pa fesurau diogelwch sy'n bodoli yn y Bil (neu'n ehangach) i geisio sicrhau bod cwricwla Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel ei gilydd yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod y dull gweithredu a'r addysgu yn blwraliaethol, ac yn enwedig pan fo'n orfodol. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd â'r nod o sicrhau addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb blwraliaethol a chrynhoir y rhain isod:

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae'r Bil yn cynnwys sawl darpariaeth sydd â'r nod o sicrhau cynnwys ac addysgu plwraliaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r rhain fel a ganlyn:

*Ailenwi addysg grefyddol yn Grefydd, Moeseg a Gwerthoedd:*

Diben y newid enw yw adlewyrchu cwmpas estynedig addysg grefyddol a sicrhau ei bod yn glir yn y ddeddfwriaeth ei hun y dylai'r pwnc newydd gynnwys safbwyntiau anghrefyddol. Gwnaed hyn drwy gysylltu darpariaeth y Bil â'r term “argyhoediadau athronyddol” yn A2P1 (gweler 62 o'r Bil). Hynny yw, mae'n rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn unol â'r Bil gydymffurfio ag A2P1 yn yr ystyr bod yn rhaid cynnwys addysgu am argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Mae i'r term argyhoeddiadau athronyddol yr un ystyr ag a geir yn A2P1. Rydym o'r farn y byddai argyhoeddiadau athronyddol crefyddol, sut bynnag, yn gyfystyr â chrefydd. Mae'r Bil hefyd yn diwygio Deddf Addysg 1996 (gweler

Atodlen 2 i'r Bil) i fewnosod cyfeiriadau at argyhoeddiadau athronyddol lle y bo'n briodol yn y darpariaethau sy'n ymdrin ag addysg grefyddol yn Neddf Addysg 1996. Gweler y canlynol:

- yn mewnosod adran 375A newydd yn Neddf 1996 (darpariaeth ynglŷn â maes llafur cytunedig) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r maes llafur cytunedig adlewyrchu ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a ddelir ym Mhrydain Fawr. Fel gydag adran 62 o'r Bil, diffinnir y term drwy gyfeirio at A2P1;
- yn diwygio adran 390 o Ddeddf 1996 (cyfansoddiad Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig) gan gynnwys cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinir uchod;
- yn diwygio adran 392 o Ddeddf 1996 (darpariaeth atodol ar gyfansoddiad Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig) gan gynnwys cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinir uchod.
- yn diwygio Atodlen 31 i Ddeddf 1996 (darpariaeth mewn perthynas â'r math o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid ei darparu ym mhob categori o ysgol) gan gynnwys cyfeiriad at argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinir uchod.

Noder hefyd adran 62(5) o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol bod yn rhaid i gyrff llywodraethu arfer eu swyddogaethau gyda'r bwriad o sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei darparu yn unol ag adran 62 o'r Bil.

*Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig:*

Er bod y Llywodraeth wedi dewis cadw Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, mae'r Bil yn diwygio eu cyfansoddiad i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnwys grŵp o bersonau i gynrychioli'r cyfryw argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn ei Gynhadledd Maes Llafur Cytundeb ag a ddylai gael eu cynrychioli ym marn yr awdurdod. Mae hyn yn adlewyrchu'r canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. Diwygiwyd y canllawiau hynny yn dilyn her gyfreithiol i Gyngor Bro Morgannwg yn 2017. Heriwyd Cyngor Bro Morgannwg drwy adolygiad barnwrol mewn perthynas â'i benderfyniad i wrthod penodi person heb gredoau crefyddol i Grŵp A o'i CYSAG. Heriwyd penderfyniad y Cyngor i wrthod aelodaeth 'lawn' (h.y. aelodaeth â hawl i gymryd rhan ym mhleidleisiau'r grŵp) CYSAG i gynrychiolydd Dyneiddiol ar y sail nad yw Dyneiddiaeth yn grefydd. O ganlyniad, penderfynodd y Cyngor i wneud y penderfyniad eto ac nid aeth yr achos yn ei flaen gerbron gwrandawiad llawn. Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg at bob awdurdod lleol yn nodi'r canlynol:

a. “er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998, dylid dehongli bod y darpariaethau yn ymwneud â chyfansoddiad CYSAG a CMLlC yn Neddf 1996 yn caniatáu penodi personau sy’n cynrychioli’r rhai â chredoau anghrefyddol yn yr un modd ag y maent yn caniatáu penodi personau sy’n cynrychioli’r rhai â chredoau crefyddol; (adran 390(4)(a) a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 i Ddeddf 1996). Fodd bynnag, ystyriwn fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan yr unigolyn i’w benodi fod yn gydweddol â chred grefyddol, megis dyneiddiaeth. Er mwyn bod yn “gydweddol”, ystyriwn fod yn rhaid i’r credoau anghrefyddol, yn unol â’r gyfraith achosion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i sicrhau diogelwch o dan Hawliau’r Confensiwn;

b. mae penodiad yn dibynnu ar farn yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o’r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu’n briodol yng Ngrŵp A. Yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am benderfynu ar benodiadau, gan ei fod yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan CYSAG yr arbenigedd a’r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.

c. Mae’r un egwyddor yn berthnasol i benodiadau i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytûn (CMLIC).”

Ni chaiff Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig argymell i'w hawdurdod lleol y dylid mabwysiadu maes llafur cytunedig oni bai ei fod yn bodloni gofynion y Bil, gan gynnwys, yn adran 62, fod yn rhaid i'r maes llafur cytunedig adlewyrchu ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a ddelir ym Mhrydain Fawr. Fel gydag adran 62 o'r Bil, diffinnir y term drwy gyfeirio at A2P1. Felly, oni bai bod y maes llafur cytunedig yn cynnwys argyhoeddiadau athronyddol fel y'u diffinnir gan A2P1, ni allai fabwysiadu'r maes llafur cytunedig a argymhellir.

Atodir copi o'r ohebiaeth hon er gwybodaeth ac er hwylustod.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'r Bil hefyd yn gwneud sawl darpariaeth sydd â'r nod o sicrhau cynnwys ac addysgu plwraliaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r rhain fel a ganlyn.

*Newid enw:*

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer newid yr enw presennol mewn deddfwriaeth o addysg rhyw i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn dangos eangder y pwnc a'r cysyniadau y dylid eu cynnwys.

*Cod Statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:*

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod sy'n nodi dysgu craidd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn golygu meysydd y mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir ymdrin â nhw wrth addysgu a dysgu'r elfen orfodol benodol hon. Bydd y rhain yn nodi'r materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw a sut y dylid ymdrin â nhw. Mae cod statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ffordd o weithredu eithriadol er mwyn adlewyrchu'r materion diwylliannol, moesol a moesegol pwysig sy'n rhan annatod o addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mewn cwricwlwm sy'n ceisio peidio â bod yn rhagnodol i raddau helaeth. Mae cyfraith achosion, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr[1].

*Yn ddatblygiadol briodol:*

Bydd y Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth benodol y bydd yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a ddarperir yn ddatblygiadol briodol.

**C3.Pam nad yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddylunio ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan ystyried y maes llafur y cytunwyd arno?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru fel darparwyr addysg yng Nghymru.

[1] Am gyfraith achosion berthnasol, gweler Dojan ac Eraill v Cais yr Almaen rhif 319/08.

Mae cyfraith achosion, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn ei gwneud yn ofynnol i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr[2].

Gallem ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol drwy un o ddwy ffordd. Byddai'r ddwy ohonynt yn sicrhau bod y canllawiau a'r fframwaith deddfwriaethol arfaethedig yn unol â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Y ffordd gyntaf fyddai gorfodi rhwymedigaeth newydd ar bob ysgol i addysgu Addysg Grefyddol mewn modd plwraliaethol. Byddai'r dull gweithredu hwn yn dileu pob cyfyngiad arall ac yn gorfodi pob ysgol i newid y ffordd y mae'n addysgu (gan dybio bod unrhyw newid yn angenrheidiol). Byddai hefyd yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth a bennir yn ei gweithred ymddiriedolaeth. Mae hyn yn debygol o effeithio ar allu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu eu henwad. Byddai maint yr effaith honno yn amrywio yn dibynnu ar y ddarpariaeth benodol yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol a dull addysgu presennol yr ysgol.

Nid yw'r Bil yn cynnwys y gofyniad hwn am y byddai goblygiadau sylweddol i ysgolion â chymeriad crefyddol.

Y ffordd arall yw'r hyn a geir yn y Bil ei hun sydd, yn ein barn ni, yn ymateb priodol i'r materion sy'n codi ac yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.

**C4.A fydd yn ofynnol i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ddylunio dau faes llafur; un enwadol a'r llall gan ystyried y maes llafur y cytunwyd arno? Os felly, sut y bydd ysgolion yn gallu cyflawni hyn yn ymarferol lle mae'n ofynnol iddynt addysgu'r ddau faes llafur?**

Bydd yn rhaid i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ddylunio dau faes llafur. Gan nad oes unrhyw hawl i dynnu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (nac yn wir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb), mae angen i'r Bil sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i'r plant hynny sy'n mynychu ysgol ffydd os bydd rhiant yn dymuno hynny. Dyna'r hyn y mae'r gyfraith gyfredol yn ei fynnu – mynediad at addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol os nad oes hawl i dynnu'n ôl. Mae'n bosibl y bydd rhai plant sy'n mynychu ysgol ffydd gwirfoddol a gynorthwyir yn gwneud hynny am mai hon yw'r ysgol addas agosaf ac nid o reidrwydd oherwydd darpariaeth addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Os felly, efallai y byddant am gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol. Cyflawnir hynny drwy ganiatáu i rieni ofyn am faes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w plant. Os gofynnir am hynny, mae'n rhaid i'r ysgol ei ddarparu. Mae hynny'n sicrhau bod maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob plentyn os dymunir hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddeall nifer y dysgwyr sy'n gofyn am hyn wrth i ofynion y Bil Cwricwlwm ac Asesu ddechrau cael eu gweithredu, a bydd yn sicrhau bod y disgwyliad tebygol yn cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Bil. Rydym o'r farn bod hynny'n unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn eu gwarchod ar gyfer pob dysgwr. O ran sut y gallant ddarparu hynny'n ymarferol, rydym yn rhagweld mai niferoedd bach iawn o ddisgyblion fydd yn peidio â dilyn y maes llafur enwadol. Byddai angen i'r ysgol ystyried y ffordd orau o ddarparu hynny. Er enghraifft, gellid ei ddarparu mewn dosbarthiadau ychwanegol atodol neu ar wahân. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r

---

[2] Am y gyfraith achosion berthnasol gweler (Folgerø v Norway; Lautsi v Italy (2008) 46 EHRR 47, paragraff 54); (Lautsi v Italy (2012) 54 EHRR 3, paragraff 59) ac achos Fox [2015] EWHC 3404 (Gwein).

Eglwys yng Nghymru i ystyried sut i asesu effaith gweithredu'r gofyniad hwn a mynd i'r afael â hi.

**C5.A oes perygl, o gofio bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgybl gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg anenwadol mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir pan fydd y rhiant yn gofyn am y ddarpariaeth honno, y gallai rhai ysgolion â chymeriad crefyddol dorri amodau eu gweithredoedd ymddiriedolaeth yn y pen draw pan fydd mwyafrif y rhieni yn gwneud cais o'r fath?**

Nac oes. Gallai'r ysgol gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw mewn sawl ffordd. Gall yr ysgol ddarparu'r math hwn o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy ddarparu dosbarthiadau atodol ychwanegol i'r disgyblion hynny yn yr ysgol. Os nad oedd hynny'n briodol ym marn yr ysgol, yna gallai'r opsiynau gynnwys gwneud trefniadau i ddarpar dysgu ychwanegol mewn lleoliad arall neu wneud trefniadau i ddarparwyr allanol ddarparu dysgu ar safle'r ysgol. Byddai angen i'r ysgol nodi hynny'n glir, gan gynnwys yr hyn a fyddai'n cael ei ddarparu.

Rydym wedi gwrando'n ofalus ar y pryderon a godwyd gan bartneriad a rhanddeiliaid ond ni ragwelwn y bydd nifer mawr o ddisgyblion yn dewis peidio â dilyn addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Yn ein barn ni, mae'n debygol, os yw rhieni wedi arfer yr hawl i dynnu eu plant yn ôl o addysg grefyddol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, y byddant hefyd yn eu tynnu'n ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol. Rydym ar ddeall bod nifer y rhieni sy'n arfer yr hawl i dynnu eu plant yn ôl ar hyn o bryd mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn fach iawn.

**C6.A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach ar y canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch meysydd llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a bod yr ymgynghoriad cyfredol (a ddaeth i ben ar 28 Gorffennaf 2020) yn gam rhagarweiniol i hyn? Pryd ydych chi'n rhagweld cynnal unrhyw ymgynghoriad ychwanegol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg?**

Mae Fframwaith Ategol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a fydd yn ganllawiau statudol, wedi cael ei lunio ar y cyd ag ymarferwyr ac arbenigwyr Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg dros y 12 mis diwethaf. Ei nod yw helpu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ac ysgolion i ddatblygu a gweithredu eu maes llafur cytunedig.

Gallaf gadarnhau y bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y fframwaith statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar ddiwedd y flwyddyn. pan fyddwn yn croesawu ystyriaeth o'r Fframwaith gan bob ffydd a chefndir.

Bwriedir cyhoeddi rhagor o ganllawiau i helpu ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddylunio'r cwricwlwm. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau â Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i ddatblygu'r canllawiau ar y cyd ac edrychaf ymlaen at weithio mewn partneriaeth â'r ddau gorff i ddatblygu'r rhain.

Bydd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, mewn partneriaeth â thair Esgobaeth Gatholig Cymru a Llywodraeth Cymru, ar y cyd yn llunio dogfennau 'Canllawiau'r Cwricwlwm' ar gyfer ysgolion Catholig yng Nghymru a fydd yn:

- creu cysylltiadau rhwng Addysg Grefyddol enwadol Gatholig a'r Dyniaethau, gan helpu ysgolion Catholig yng Nghymru i roi sylw priodol i'r MDPh;
- creu cysylltiadau ehangach rhwng y meysydd llafur enwadol Catholig a chynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill;

- cyfeirio at elfennau trawsbynciol y cwricwlwm, megis: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS**
Y Gweinidog Addysg

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol

3 Mai 2018

Annwyl Gydweithwyr

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am drefniadau llywodraethu ac aelodaeth y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ("CYSAG") a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytûn ("CMLIC").

Fel y gwyddoch, mae'r canllawiau perthnasol yn ymwneud ag aelodaeth CYSAG wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 10/94 (a gyhoeddwyd gan yr hen Swyddfa Gymreig ym 1994). Nid yw'r cylchlythyr anstatudol hwn yn rhwymo mewn cyfraith nac yn awdurdodol, ond codwyd nifer o gwestiynau'n ddiweddar yn ymwneud ag aelodaeth Grŵp A CYSAG. Yn benodol, codwyd cwestiynau ynglŷn ag a ddylai personau â chredoau anghrefyddol (fel Dyneiddwyr) gael caniatâd i fod yn aelodau llawn o Grŵp A ar sail Deddf Hawliau Dynol 1998. Er gwybodaeth, mae manylion aelodaeth CYSAG i'w gweld yn Atodiad A.

Mae paragraff 103 yn datgan:

> "Byddai cynnwys cynrychiolwyr systemau cred megis hiwmanistaeth, nad ydynt yn gyfystyr â chrefydd neu enwad crefyddol, ar bwyllgor A cynhadledd maes llafur cytûn neu grŵp A CYSAG yn groes i'r darpariaethau cyfreithiol y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 102."

Awdurdodau lleol a'r CYSAGau sy'n gyfrifol am benodi personau i CYSAG. Fodd bynnag, o ystyried cyngor cyfreithiol, rwyf o'r farn y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A CYSAG neu CMLIC er mwyn sicrhau bod y CYSAG/CMLIC yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol.

Ym marn Llywodraeth Cymru:

- er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998, dylid dehongli bod y darpariaethau yn ymwneud â chyfansoddiad CYSAG a CMLIC yn Neddf 1996 yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau anghrefyddol yn yr un

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

modd ag y maent yn caniatáu penodi personau sy’n cynrychioli’r rhai â chredoau crefyddol; (adran 390(4)(a) a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 i Ddeddf 1996). Fodd bynnag, ystyriwn fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan yr unigolyn i’w benodi fod yn gydweddol â chred grefyddol, megis dyneiddiaeth. Er mwyn bod yn “gydweddol”, ystyriwn fod yn rhaid i’r credoau anghrefyddol, yn unol â’r gyfraith achosion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i sicrhau diogelwch o dan Hawliau’r Confensiwn.

- mae penodiad yn dibynnu ar farn yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o’r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu’n briodol yng Ngrŵp A. Yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am benderfynu ar benodiadau, gan ei fod yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan CYSAG yr arbenigedd a’r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.

Mae’r un egwyddor yn berthnasol i benodiadau i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytûn (CMLlC).

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae’r canllaw a nodir yn y llythyr hwn yn disodli paragraff 103 o Gylchlythyr 10/04.

O safbwynt diweddaru Cylchlythyr 10/94 yn fwy cyffredinol, rwy’n ymwybodol bod meysydd eraill sy’n destun dadl yn y ddogfen sydd angen mynd i’r afael â nhw. Gan fod rhai materion yn gymhleth, rydym yn parhau i’w hystyried ac felly bydd adolygiad o’r canllawiau yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y gwaith sy’n cael ei wneud ar y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn egluro’r materion hyn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Atodiad A

Mae swyddogaethau CYSAG wedi'u nodi yn adran 375 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"). Yn gyffredinol, y swyddogaethau yw cynghori awdurdod lleol ar faterion yn ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae adran 390 o Ddeddf 1996 yn pennu cyfansoddiad CYSAG fel a ganlyn:

*a)* *a group of persons to represent Christian denominations and other religions and denominations as in the opinion of the authority appropriately reflect the principal religious traditions in the area. The number of persons appointed should reflect broadly the proportionate strength of the particular denomination or religion in the area ("Group A");*

*b)* *a group of persons representing associations that represent teachers; and*

*c)* *a group of persons to represent the authority.*

Yn ogystal, gall CYSAG gynnwys aelodau cyfetholedig. Dylai'r cyfryw aelodau gael eu penodi ar y telerau y gellir eu pennu gan y rhai sy'n cyfethol yr unigolyn hwnnw h.y. y CYSAG ei hun (adran 392(5) o Ddeddf 1996). Ni all aelodau cyfetholedig gymryd rhan mewn pleidlais grŵp.